# Polisi ar Ddynodi Ystafelloedd i fyfyrwyr presennol sy'n gwneud cais am ystafell mewn Neuadd ar gyfer Medi 2012.

1. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd i ddod, sef 2012-13, ac ni ddylid cymryd y bydd y polisi yn aros yr un fath mewn unrhyw flynyddoedd dilynol.

2. Rhagwelir y bydd llawer mwy o geisiadau yn dod i law na nifer yr ystafelloedd sydd ar gael, a rhaid i ymgeiswyr ddeall NAD OES SICRWYDD y byddant yn cael ystafell mewn unrhyw Neuadd Breswyl.

3. Bydd ceisiadau'n cau am 4.00pm ddydd Gwener 17 Chwefror 2012.

4. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud ar-lein drwy fynd i www.bangor.ac.uk/accommodation a dilyn y cysylltiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd.

5. Caiff yr holl fyfyrwyr israddedig – (myfyrwyr Bl.2, Bl.3 a Bl.4 ym Medi 2012) a'r rhai sy'n ail-wneud eu blwyddyn gyntaf ym Medi 2012 wneud cais, fel y caiff ôl-raddedigion PRESENNOL a fydd yn parhau â'u hastudiaethau ôl-radd ar gyfer y cyfan o flwyddyn academaidd 2012-13.

6. Bydd gwahoddiad i fyfyrwyr enwi hyd at 3 Neuadd yr hoffent fyw ynddynt.

7. Bydd gwahoddiad i fyfyrwyr nodi unrhyw amgylchiadau arbennig, p'un a fyddont yn ymwneud ag iechyd neu beidio, sy'n effeithio ar eu gofynion o ran llety. Dylent anfon unrhyw ddogfennau ategol perthnasol i'r Swyddfa Neuaddau. Dylai myfyrwyr sylwi na fydd crybwyll amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar eu gofynion o ran llety, ynddo'i hun yn gwarantu y bydd ystafell ar gael iddynt.

8. Gwahoddir myfyrwyr i nodi enw ffrind yr hoffent fyw gydag ef/gyda hi. Os oes yna fwy o fyfyrwyr yr hoffai'r myfyriwr rannu â hwy, dylent ychwanegu'r wybodaeth hon pan ofynnir iddynt ychwanegu gwybodaeth ychwanegol ar y ffurflen ar-lein. Caiff myfyrwyr eu hystyried fel 'grŵp' yn unig os bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu nodi ar bob un o'r ceisiadau. Ni all y Swyddfa Neuaddau fod yn gyfrifol am gamgymeriadau neu wybodaeth heb ei chynnwys gan fyfyrwyr ar eu ceisiadau.

9. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth unigol i fyfyrwyr sy'n nodi unrhyw amgylchiadau arbennig, p'un a fyddont yn ymwneud ag iechyd neu beidio, ac sy'n gwneud cais fel rhan o grŵp. Nid oes gwarant awtomataidd y bydd holl aelodau 'grŵp' sydd ag aelod sy'n crybwyll 'amgylchiadau arbennig' yn cael ystafelloedd, hyd yn oed os bydd cais yr union fyfyriwr sy'n crybwyll 'amgylchiadau arbennig' yn llwyddiannus.

10. Dylai myfyrwyr nodi nad yw eu ceisiadau yn debygol o gael eu hystyried os oes ganddynt ôl-ddyledion taliadau am y flwyddyn gyfredol.

11. Bydd panel yn ystyried yr holl geisiadau lle nodir amgylchiadau arbennig. Bydd y panel yn cynnwys aelodau'r tîm Wardeiniaid, cynrychiolwyr o'r Swyddfa Neuaddau, Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.

12. Ceir nifer gyfyngedig o leoedd ar gyfer myfyrwyr israddedig presennol a myfyrwyr ôl-raddedig presennol. Ar ôl y dyddiad cau, ystyrir ceisiadau yn y drefn isod:

    - Myfyrwyr sydd wedi sôn am unrhyw amgylchiadau arbennig, p'un a fyddont yn ymwneud ag iechyd neu beidio, os bydd dogfennaeth yn ategu hynny (gweler uchod) – i'w harolygu gan y panel.
    - Myfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn astudio ymaith o Fangor dros y cyfan o'r flwyddyn academaidd bresennol – h.y. y rheiny sydd ar leoliadau neu 'flwyddyn allan' mewn diwydiant neu dramor.
    - Myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf (2012-13), yn cynnwys y rheiny sy'n crybwyll 'amgylchiadau arbennig' ac na fu eu ceisiadau'n llwyddiannus pan gawsant eu hystyried gan y panel sy'n arolygu amgylchiadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys grwpiau o fyfyrwyr sy'n gwneud cais ar y cyd, ar yr amod fod yr holl fyfyrwyr yn cychwyn ar eu blwyddyn olaf o astudiaeth.
    - Yr holl geisiadau eraill, yn cynnwys y rheiny sy'n crybwyll 'amgylchiadau arbennig' ac na fu eu ceisiadau'n llwyddiannus pan gawsant eu hystyried gan y panel sy'n arolygu amgylchiadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys 'grwpiau' o fyfyrwyr sy'n gwneud cais ar y cyd, ac NAD ydynt yn eu blwyddyn olaf o astudiaeth, a hefyd grwpiau 'cymysg' – h.y. grwpiau o fyfyrwyr sy'n gwneud cais ar y cyd ac sy'n dod o flynyddoedd 2 a 3.

13. Myfyrwyr sy'n nodi amgylchiadau arbennig ac sydd wedi llwyddo gyda'u cais a gaiff ystafell gyntaf. Yna, cynhelir pleidlais, yn gyntaf ymysg myfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn astudio ymaith o Fangor, ac yna ymysg ymgeiswyr yn eu blwyddyn olaf, ar gyfer y lleoedd sydd ar gael mewn Neuadd. Gobeithir y caiff ymgeiswyr llwyddiannus ystafell yn un o'r neuaddau o'u dewis. Po uchaf ei (l)le yn y bleidlais, mwyaf tebygol y bydd y myfyriwr o gael cynnig ystafell mewn Neuadd o'i (d)dewis. Oherwydd bod y galw yn amrywio, nid yw'n bosibl darogan faint o fyfyrwyr llwyddiannus a gaiff Gytundeb Preswyliad ar gyfer ystafell yn y Neuadd o'u dewis cyntaf. Mae'n bosibl hefyd y caiff ymgeiswyr llwyddiannus gynnig ystafell mewn Neuadd nad yw ar eu rhestr ddewisiadau o gwbl.

14. Os oes ystafelloedd yn weddill ar ôl y bleidlais ar gyfer myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf, cynhelir pleidlais ymysg yr holl ymgeiswyr sydd ar ôl ar gyfer y lleoedd sy'n weddill. Unwaith eto, dynodir ystafelloedd hyd y bo modd yn ôl dewisiadau penodol.

15. Bydd cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr yn ardystio'r bleidlais.

16. Rydym yn gobeithio y bydd myfyrwyr llwyddiannus yn derbyn e-bost yn eu cyfeirio at eu Cytundeb Preswyliad ddechrau Mawrth 2012. RHAID i ymgeiswyr edrych yn eu cyfrif e-bost Prifysgol yn rheolaidd. Yn yr e-bost nodir yn glir beth y mae'n rhaid i'r myfyriwr ei wneud os yw am DDERBYN neu WRTHOD y llety a gynigir a rhoddir cyfnod penodedig ar gyfer gwneud hynny. Ni all y Swyddfa Neuaddau gymryd unrhyw gyfrifoldeb os na fydd myfyrwyr yn edrych ar eu post. **Mae lleoedd sydd wedi'u cadarnhau yn gofyn**

**am flaendal o £300.00**. Bydd Cytundebau Preswyliad yn rhwymo'n gyfreithiol, ond gall myfyrwyr dynnu'n ôl o'r contract a hawlio eu blaendal yn ôl trwy hysbysu'r Swyddfa Neuaddau yn ysgrifenedig erbyn 31 Awst 2012.

17. Os na fydd myfyrwyr yn ateb o fewn y terfyn amser penodol, tynnir y cynnig yn ôl.

18. Caiff myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n aflwyddiannus â'u ceisiadau wahoddiad i hysbysu'r Swyddfa Neuaddau os ydynt yn dal yn awyddus i gael eu hystyried ar gyfer ystafell mewn Neuaddau os bydd un ar gael yn ddiweddarach yn y drefn geisiadau.

19. Cynhelir ail bleidlais os oes unrhyw ystafelloedd ar gael ar ôl i fyfyrwyr llwyddiannus wrthod ystafelloedd neu beidio ag ymateb.

20. Ni roddir ystyriaeth i geisiadau hwyr – rhai a gyflwynir ar ôl 17 Chwefror 2012 – AR UNRHYW GYFRIF, oni fydd ystafelloedd ar gael unwaith y bydd yr holl fyfyrwyr a wnaeth gais mewn da bryd wedi cael ystafell.

21. Gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, neu'n dysgu'r iaith, ac sy'n gwneud cais am breswylio yn Neuadd John Morris Jones cynhelir pleidlais gyffelyb os daw mwy o geisiadau i law nag sydd o leoedd.